

Ymateb y Llywodraeth: Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y materion sydd wedi'u codi. Er bod angen cywiro neu egluro rhai pwyntiau, mân bwyntiau drafftio yw'r rhan fwyaf ohonynt ac nid ydynt yn newid gweithrediad y Cod na'i effaith gyfreithiol.

O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn cynnig i'r Pwyllgor y dylai'r cywiriadau a nodwyd, y manylir arnynt isod, gael eu gwneud cyn dyroddi'r Cod Ymarfer. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod hwn yn ddull pragmataidd a chymesur, a fydd yn sicrhau bod y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi'n gywir heb oedi diangen.

Pwynt craffu 3: Bydd paragraff 5.22 o'r testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio fel bod "o'r dyddiad y rhoddwyd **y datganiad yn gyntaf**" yn cael ei newid i "o'r dyddiad y rhoddwyd **y gofal a chymorth yn gyntaf**" i gyfateb i'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 4: Yn Atodiad D, ym mharagraff 4.3, yn y pwyntiau bwled olaf, rhoddir y term "*berthynas cymwys*" yn lle "*berthynas cymhwysol*" yn y testun Cymraeg er mwyn sicrhau cysondeb â'r term diffiniedig yn Atodlen 2 i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015.

Pwynt craffu 5: Mae barn Llywodraeth Cymru yn parhau i fod fel y'i mynegwyd wrth ymateb i'r pwynt adrodd a godwyd mewn perthynas â'r Cod a dynnwyd yn ôl.

Pwynt craffu 6: Yn y cyd-destun pan fo "*DPA*", "*cytundeb taliadau gohiriedig*" a "*cytundeb*" yn ymddangos yn nhestunau Cymraeg a Saesneg y Cod, mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes unrhyw amwysedd ynghylch pa gytundeb y cyfeirir ato. Er eglurder ac er mwyn cynnal cysondeb rhwng y testun yn y ddwy iaith, gwneir y newidiadau canlynol cyn i'r Cod gael ei ddyroddi.

- a) Yn y testun Saesneg, ar ddiwedd paragraff 2.16 yn Atodiad B, ac ym mharagraff 8.13 o Atodiad C o'r Cod, rhoddir y term diffiniedig "*DPA*" yn lle'r term llawn "*Deferred Payment Agreement*". Mae hyn yn cyfateb i'r testun Cymraeg, lle bydd yr ymadrodd llawn "*cytundeb taliadau gohiriedig*" yn cael ei ddefnyddio drwy'r Cod i gyd.
- b) Yn Atodiad D, ym mharagraff 5.3, gwneir newidiadau fel a ganlyn cyn dyroddi'r Cod.
 - i) yn y pwynt bwled cyntaf, a'r ail, yr unfed ar ddeg a'r deuddegfed yn y testun Saesneg, rhoddir y term diffiniedig "*DPA*" yn lle "*agreement*"

i gyfateb i'r testun Cymraeg lle defnyddir yr ymadrodd llawn "cytundeb taliadau gohiriedig";

- ii) yn yr wythfed pwynt bwled, bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i roi "cytundeb taliadau gohiriedig" yn lle "taliadau gohiriedig" i gyfateb i'r defnydd o'r term diffiniedig "a DPA" yn y testun Saesneg;
- c) Yn Atodiad D, yn y testun Cymraeg, bydd "y cytundeb" yn cael ei newid i "y cytundeb taliadau gohiriedig" ym mharagraffau 9.2, 9.3, 9.5, 9.8, 10.1 (gan gynnwys y pennawd), 10.2, 10.3, 10.4, 10.5 ac 11.9 i gyfateb i'r defnydd o "DPA" yn y testun Saesneg;
- d) Yn Atodiad F, ym mharagraff 5.1, yn y testun Saesneg, lle caiff yr ymadrodd "deferred payment agreement" ei ddiffinio eto, bydd hyn yn cael ei gywiro a rhoddir "DPA" yn lle "deferred payment agreement (DPA)". Ym mharagraff 6.1 o'r testun Cymraeg, rhoddir "cytundeb taliadau gohiriedig" yn lle "cytundeb o'r fath".

Pwynt craffu 7: Pan fo "the agreement" yn ymddangos yn hytrach na "DPA" yn y testun Saesneg, a phan fo "[y] cytundeb" yn ymddangos yn hytrach na "[y] cytundeb taliadau gohiriedig" yn y testun Cymraeg, rhoddir yn eu lle "DPA" yn y testun Saesneg a "[y] cytundeb taliadau gohiriedig" yn y testun Cymraeg, fel sy'n ofynnol ym mharagraffau 4.3 (yn y pwynt bwled cyntaf), 5.1, 10.3, 10.4 (yn y geiriau agoriadol), 10.5, ac 11.1(a) o Atodiad D. Yn ogystal, defnyddir y term diffiniedig "DPA" ym mharagraff 3.2 o Atodiad D yn lle "deferred payment" yn y testun Saesneg, a bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r newid hwn.

Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn glir bod y cytundebau ysgrifenedig y cyfeirir atynt ym mharagraffau 8.5, 8.6, 8.12 ac 8.16 o Atodiad C yn wahanol i'r cytundebau taliadau gohiriedig y cyfeirir atynt mewn mannau eraill, bydd y newidiadau a amlinellir uchod yn cadarnhau'r gwahaniaeth hwnnw.

Pwynt craffu 8: Yn Atodiad D, ym mharagraff 6.4, bydd y testun Saesneg yn cael ei ddiwygio i ddarllen "as part of the administrative costs local authorities can charge for putting a DPA **in place**, if they wish to do so." Bydd hyn yn cyfateb i'r testun Cymraeg.

Pwynt craffu 9: Wrth adolygu'r Cod cyn ei ailosod, penderfynwyd dileu'r amserlen enghreifftiol ar gyfer cronni dyled o baragraff 3.1 o Atodiad F.

Mae'r Cod presennol yn darparu: "Yr adeg y daw dyled yn ddyledus yw'r dyddiad y daw'r swm a osodwyd yn ddyledus i'r awdurdod lleol. Golyga hyn, er enghraifft, os anfonwyd anfoneb yn rhoi 30 diwrnod i dalu, y daw'r taliad yn ddyledus ar ddiwrnod 30 ac y bydd dyled yn cronni os na wneir taliad."

Mae'r Cod diwygiedig drafft yn darparu: *“Y sefyllfa o hyd yw y daw dyled yn ddyledus o'r dyddiad y mae'r swm yn daladwy, yn unol â'r telerau a nodwyd gan yr awdurdod lleol.”*

Gwnaed y newid hwn oherwydd y gallai'r enghraifft greu dryswch pan fo awdurdodau lleol yn defnyddio telerau anfonebu gwahanol i'r rhai a ddangoswyd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y geiriad diwygiedig yn ddigon clir heb gynnwys enghraifft. Tynnwyd sylw at y newid hwn wrth ymgynghori â'r awdurdodau lleol, ac ni ddaeth unrhyw sylwadau nac arsylwadau i law ar y mater.

Bydd mân faterion yn ymwneud â fformadu a gwallau teipograffyddol yn cael eu cywiro hefyd cyn i'r Cod Ymarfer gael ei ddyroddi.